# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL): Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfarniad McCloud

## Beth yw dyfarniad McCloud?

Pan newidiodd cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, o gynlluniau cyflog terfynol i gynlluniau cyfartaledd gyrfa yn 2014 a 2015, cafodd aelodau hŷn eu gwarchod rhag y newidiadau. Bu i'r achos llys, sy'n cael ei adnabod fel y dyfarniad McCloud, ganfod y bu gwahaniaethu yn erbyn aelodau iau.

Newidiodd y Llywodraeth reolau'r CPLlL o 1 Hydref 2023 i gael gwared ar y gwahaniaethu hwn. Caiff y newidiadau hyn eu hadnabod fel y dyfarniad McCloud.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y dyfarniad trwy ddarllen y tudalennau McCloud ar ein gwefan.
**cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/CPLlL/Rhwymedi-McCloud/cartref.aspx**

## Y camau nesaf

Rydym wrthi'n adolygu cofnodion pensiwn ein pensiynwyr a byddwn yn ysgrifennu atoch cyn 31 Awst 2026 os oes angen cynyddu gwerth eich pensiwn oherwydd dyfarniad McCloud.

Os ydych chi eisoes yn bensiynwr gyda ni, byddwn yn talu unrhyw ôl-ddyledion neu log sy'n ddyledus i chi os bydd angen ailgyfrifo eich pensiwn.  Byddwn hefyd yn ysgrifennu atoch gyda rhestr fanwl o'r ffigyrau pensiwn newydd.